# Pecyn Adnoddau Llysgenhadon Cymunedol

Comisiynydd Plant Cymru
Children's Commissioner for Wales

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4

## Gweithgareddau

Gweithgaredd Un: Cyflwyniad a Mesur Effaith ........ 6
Gweithgaredd byr yw hwn i gyflwyno rôl y Llysgenhadon Cymunedol.

Gweithgaredd Dau: Corff o Hawliau ........ 7
Mae'r gweithgaredd yma'n galluogi'r grŵp i feddwl am y pethau maen arnyn nhw eu hangen i dyfu i fyny'n hapus, yn iach ac yn ddiogel. Yna mae'n eu cyflwyno nhw i CCUHP.

Gweithgaredd Tri: Gêm Cytuno/Anghytuno ........ 8
Gêm gwirio synnwyr yw hon er mwyn sicrhau bod y grŵp yn deall hawliau plant a rôl y Comisiynydd.

Gweithgaredd Pedwar: Ffrâm Rhewi Hawliau ........ 9
Mae'r gweithgaredd yma'n galluogi'r cyfranogwyr i ddeall hawliau plant trwy ddrama.

Gweithgaredd Pump: Camu Mlaen ........ 10
Mae'r gweithgaredd yma'n ffordd weledol o archwilio pam mae gan blant a phobl ifanc hawliau ac ystyried faint o bŵer sydd gan rai oedolion dros fywydau pobl ifanc.

Gweithgaredd Chwech: Pictionary Hawliau ........ 11
Fersiwn wahanol o Pictionary clasurol yw'r gêm hon, yn gwreiddio hawliau trwy dynnu lluniau.

Gweithgaredd Saith: Hawliau Pedair Cornel ........ 13
Gêm gyflym, egnïol yw hon, sy'n arbennig o dda ar gyfer plant ifanc.

Gweithgaredd Wyth: Hawliau yn eich Cymuned ........ 14
Mae'r gweithgaredd hwn yn ffordd ddifyr i'r cyfranogwyr ystyried eu hardal a'r hawliau sydd ganddyn nhw yn eu cymuned.

Gweithgaredd Naw: Hawliau ar eich Stryd chi ........ 15
Gweithgaredd creadigol yw hwn, yn nodi hawliau ac achosion o dorri hawliau yn eich cymuned.

Gweithgaredd Deg: Snaptifyddion ........ 16
Mae'r gweithgaredd yma'n paru actifyddion ifanc â'r pethau wnaethon nhw a pha hawl roedden nhw'n ymladd drosti.

Gweithgaredd Un Deg Un: Beth Ddaeth Gynta ........................................................ **17**
Gweithgaredd cyflym yw hwn lle mae'r cyfranogwyr yn dyfalu beth ddaeth gyntaf mewn hanes.

Gweithgaredd Un Deg Dau: Kahoot Hawliau ........................................................ **18**
Cwis rhyngweithiol yw hwn i gyflwyno'r cyfranogwyr i hawliau plant a'r Comisiynydd.

Adnoddau ........................................................ **19**
Adnoddau ychwanegol i helpu gyda'ch gweithgareddau.

# Cyflwyniad

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru, ac mae hi wedi llanw'r swydd yna ers mis Ebrill 2015. Gwaith Sally a'r tîm yw:

- **Cefnogi** plant a phobl ifanc i ddysgu am hawliau plant
- **Gwrando ar** blant a phobl ifanc i ddysgu beth sy'n bwysig iddyn nhw
- **Cynghori** plant, pobl ifanc a'r rhai sy'n gofalu amdanyn nhw os byddan nhw'n teimlo eu bod nhw'n methu troi at neb arall gyda'u problemau
- **Dylanwadu ar** y llywodraeth a sefydliadau eraill sy'n dweud eu bod nhw'n mynd i wneud gwahaniaeth i fywydau plant, a sicrhau eu bod nhw'n cadw eu haddewidion i blant a phobl ifanc
- **Codi llais** dros blant a phobl ifanc yn genedlaethol ar faterion pwysig — bod yn bencampwr plant yng Nghymru

Rydyn ni'n gweithio dros bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru sydd o dan 18, neu 25 oed os ydyn nhw wedi bod mewn gofal.

## Llysgenhadon Cymunedol

Llysgenhadon Cymunedol yw plant a phobl ifanc sydd wedi gwirfoddoli fel aelod o'u grŵp cymuned lleol neu grŵp diddordeb arbennig i wneud 3 prif dasg i'r Comisiynydd Plant:

**Tasg 1** — Dweud wrth eraill am CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

**Tasg 2** — Dweud wrth eraill am Sally a Thîm y Comisiynydd Plant.

**Tasg 3** — Bod yn llais ar lawr gwlad i'r Comisiynydd Plant a bwydo i'w gwaith trwy dasgau tymhorol a gweithdai.

## Sut mae defnyddio'r pecyn yma

Mae'r adnodd yma wedi cael ei greu i arweinwyr grwpiau a Llysgenhadon Cymunedol ei ddefnyddio gyda'u cyfoedion i archwilio rôl Llysgenhadon Cymunedol, rôl Sally Holland a'i thîm, ac yn fwyaf pwysig, CCUHP a hawliau plant.

I fynd gyda'r adnodd yma, rydyn ni hefyd wedi anfon pecyn symbolau (cardiau CCUHP), gyda syniadau am sut gallech chi ddefnyddio nhw, awgrymiadau gwych ar gyfer gwreiddio CCUHP yn eich cymuned, bathodynnau Llysgenhadon, posteri CCUHP a gwybodaeth am ein tîm Ymchwiliadau a Chyngor.

Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi am Hawliau, Sally Holland Comisiynydd Plant Cymru a'r gwaith mae hi'n ei wneud, mae hynny ar gael ar ein gwefan www.complantcymru.org.uk

## Dywedwch wrthyn ni beth wnaethoch chi

Byddai'r Comisiynydd Plant yn hoffi clywed am sut mae eich grŵp cymunedol wedi defnyddio'r pecyn yma, felly anfonwch e-bost aton ni i post@complantcymru.org.uk, os gwelwch yn dda, a dweud wrthyn ni beth fuoch chi'n gwneud.

Fel arall, gallech chi fod yn rhan o'n **#AwrHawliau** ar Twitter. Anfonwch neges drydar i @complantcymru a chynnwys **#AwrHawliau** yn y neges. Mae'r **#AwrHawliau** yn digwydd bob dydd Gwener o 12pm — 1pm ac mae'n ffordd ragorol o rannu'r gwaith mae eich grŵp chi wedi'i wneud gyda phawb yng Nghymru.

# Gweithgaredd Un
# Cyflwyniad a Mesur Effaith

Maint y grŵp: 20-30

Amser angenrheidiol: 30 munud

*Mae'r gweithgaredd yma'n gyflwyniad i rôl Sally Holland ac yn amlinellu beth mae disgwyl i Lysgennad Cymunedol ei wneud. Yn rhan o'r adnoddau mae offeryn i'ch helpu i fesur a chofnodi effaith y gwaith rydych chi neu'r Llysgenhadon Cymunedol yn ei wneud. Mae hynny'n cynnwys Gwerthusiad Gweithwyr ac Adfyfyrio Ymlaen Llaw a Wedyn ar gyfer pobl ifanc. Bydden ni'n gwerthfawrogi tasech chi'n defnyddio'r rhain nawr ar y cychwyn, ac eto ar ôl i chi orffen cynnal y sesiynau yma, gan y bydd hynny'n ein helpu ni i wella sut rydyn ni'n gweithio.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Copi o'r cwestiynau gwerthuso yng nghefn y pecyn (Adnodd 1: Adfyfyrio Ymlaen Llaw a Wedyn i Bobl Ifanc)
- Y geiriau Ie/Na/Falle ar ddarnau o bapur A4 i'w rhoi ar y llawr neu'r wal
- Clip Fideo o Sally Holland
- Gallu gweld tudalen gyntaf y pecyn yma, i'ch atgoffa am waith y Llysgenhadon Cymunedol

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Esboniwch eich bod chi'n mynd i ofyn 4 cwestiwn i'r grŵp a'ch bod chi eisiau iddyn nhw roi ateb ie, na neu falle. Gallwch chi ofyn i bobl godi llaw neu roi'r matiau Ie/Na/Falle ar ochr arall y stafell a gofyn i'r rhai sy'n cymryd ran sefyll yn agos at yr ateb maen nhw eisiau ei roi.

2. Defnyddiwch y cwestiynau gwerthuso yng nghefn y pecyn i gofnodi eich atebion a nodwch nifer y bobl ifanc yn y stafell (Mae templed gwag i chi yn Adnodd 1).

3. Dangoswch y clip fideo yma o Sally https://www.youtube.com/watch?v=UNy9Xq5AlLI&t er mwyn i'r grŵp gael gweld pwy yw hi. Os nad oes cyfrifiadur ar gael, gallwch chi ddarllen Adnodd 2 i'r grŵp.

4. Esboniwch fod Sally'n chwilio am Lysgenhadon Cymunedol i fod yn llais iddi ar lawr gwlad a bod ganddyn nhw 3 rhan i'w gwaith:

    a. Rhan 1 — Dweud wrth bobl eraill am CCUHP (Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn);
    b. Rhan 2 — Dweud wrth eraill am Sally a Thîm y Comisiynydd Plant
    c. Rhan 3 — Bod yn llais i'r Comisiynydd Plant ar lawr gwlad a bwydo i'w gwaith trwy dasgau tymhorol a gweithdai.

Os oes gan unrhyw aelodau o'r grŵp ddiddordeb mewn bod yn Llysgenhadon Cymunedol, gallwch chi wahodd nhw i fod yn rhan o'r gweithgareddau nesaf.

# Gweithgaredd Dau
# Corff o hawliau

Maint y grŵp: Rhannu'n grwpiau bach (6 neu lai)

Amser angenrheidiol: 30 munud

*Mae'r gweithgaredd yma'n rhoi cyfle i bobl ifanc feddwl am hawliau trwy ganolbwyntio ar berson ifanc fel nhw eu hunain, a meddwl beth sydd ei angen arnyn nhw i dyfu a bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Yna maen nhw'n cael eu cyflwyno i CCUHP, ac yn archwilio ydy'r anghenion maen nhw wedi'u nodi yn cyfateb i'r hawliau sydd ganddyn nhw.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Poster CCUHP a phecyn Symbolau (gallwch chi brintio pecynnau ychwanegol o'n gwefan)
- Papur wal/papur fflipsiart neu lieiniau bwrdd papur
- Pinnau ffelt (y gallwch chi eu golchi i ffwrdd)
- Siswrn
- Tâp gludiog
- Darnau bach o bapur

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Gofynnwch i bob grŵp dynnu llinell o amgylch un aelod o'r tîm ar y darn mawr o bapur ar y llawr. Gofynnwch i'r grwpiau enwi ac addurno'u plentyn/person ifanc dychmygol.

2. Nesaf gofynnwch i'r grwpiau feddwl beth sydd ei angen ar eu person dychmygol i dyfu, ac i fod yn hapus, yn iach ac yn ddiogel. Gall y grŵp ddewis ysgrifennu neu dynnu llun o'r pethau maen nhw'n meddwl sydd eu hangen ar y person, ac yna gallan nhw lynu eu syniadau ar amlinelliad eu plentyn/person ifanc. (Dylech chi ganiatáu 15 munud ar gyfer y tasgau yma)

3. Gofynnwch i bob grŵp roi adborth ar 3 pheth maen nhw wedi eu rhoi ar eu plentyn i'r grŵp cyntaf.

4. Esboniwch fod "CCUHP yn rhestr o hawliau i blant a phobl ifanc, hyd at 18 oed, ym mhob man yn y byd. Y hawliau ar y rhestr yw'r holl bethau mae ar blant a phobl ifanc eu hangen i sicrhau eu bod nhw'n ddiogel, yn cael y pethau angenrheidiol i oroesi a datblygu, ac yn cael rhoi barn ar benderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau".

5. Rhowch gopi o'r poster CCUHP i bob grŵp a sicrhau bod yr adnoddau symbolau ar gael. Gofynnwch i'r grwpiau weld ydyn nhw wedi cynnwys unrhyw hawliau ar eu plentyn/person ifanc.

6. Yn olaf, gofynnwch i'r plant/bobl ifanc chwilio yn y confensiwn am hawliau dydyn nhw ddim wedi'u eu cynnwys ar eu plentyn.

7. Rhowch adborth ar atebion y grŵp.

# Gweithgaredd Tri
# Gêm Cytuno/Anghytuno

Maint y grŵp: Y grŵp cyfan

Amser angenrheidiol: 10 munud

*Gêm gwirio synnwyr yw hon i sicrhau bod y grŵp yn deall hawliau plant a rôl Comisiynydd Plant Cymru. Gallwch chi ei chwarae yn eistedd i lawr neu'n symud o gwmpas.*

**Sut mae gwneud hyn:**

Gallwch chi chwarae'r gêm yma mewn 3 ffordd wahanol:

- Creu adrannau cytuno, anghytuno a ddim yn siŵr mewn gwahanol rannau o'r stafell, fel bod y plant yn rhedeg at eu dewis.
- Gofyn i'r plant roi bawd i fyny, bawd i lawr neu fawd yn y canol.
- Gofyn i'r plant estyn i fyny'n uchel (os ydyn nhw'n cytuno), cyffwrdd â'r ddaear (os ydyn nhw'n anghytuno) neu betruso yn y canol (os dydyn nhw ddim yn siŵr).
- Darllenwch amrywiaeth o wahanol bwyntiau y gall y plant gytuno neu anghytuno â nhw. Cymysgwch rai seiliedig ar hawliau â rhai cyffredinol, er enghraifft:

    - Mae gan blant hawl i chwarae.
    - Mae gan blant hawl i gael anrhegion Nadolig.
    - Rwy'n hoffi cacen siocled.
    - Bydd oedolion wastod yn gwybod beth sydd orau i blant.
    - Fy hoff gêm i yw pêl fasged.

# Gweithgaredd Pedwar
# Ffrâm Rhewi Hawliau

Maint y grŵp: Y grŵp cyfan

Amser angenrheidiol: 30 munud

*Gallwch chi ddefnyddio'r gweithgaredd yma i dorri'r iâ yn ogystal ag fel cyfle i archwilio hawliau plant. I wneud y gweithgaredd yma, bydd angen lle yn y stafell i'r grŵp greu sawl fîm bach. Gallwch chi chwarae'r gweithgaredd yma gyda phob oed.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Cardiau symbolau sydd wedi'u dewis ymlaen llaw.

**Awgrymiadau o ran Cardiau**

- Erthygl 15 — Mae gen i hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau.
- Erthygl 19 — Mae gen i hawl i gael fy amddiffyn rhag cael fy mrifo neu fy nhrin yn wael.
- Erthygl 24 — Mae gen i hawl i ofal iechyd o ansawdd, dŵr glân a bwyd da.
- Erthygl 27 — Mae gen i hawl i gael tŷ, bwyd a dillad addas,
- Erthygl 28 — Mae gen i hawl i gael addysg.
- Erthygl 31 — Mae gen i hawl i ymlacio a chwarae.
- Erthygl 36 — Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau a allai niweidio fy natblygiad.

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Gofynnwch i'r rhai sy'n cymryd rhan rannu'n grwpiau bach.
2. Esboniwch eich bod chi'n mynd i roi cerdyn symbolau â hawl arni i bob grŵp. Dylai'r grŵp gadw eu hawl allan o'r golwg a pheidio â'i rhannu â'r grwpiau eraill.
3. Gofynnwch i'r grwpiau feddwl am yr hawl maen nhw wedi'i chael a sut gallen nhw greu ffrâm rhewi ohoni.
4. Rhowch 5 munud i bob grŵp feddwl am eu ffrâm rhewi.
5. Esboniwch y bydd pob grŵp yn cymryd tro i ddangos eu ffrâm rhewi, tra bod y grwpiau eraill yn dyfalu pa hawl sydd ganddyn nhw.
6. Gofynnwch pa grŵp fyddai'n hoffi mynd gyntaf, esboniwch y byddwch chi'n cyfri lawr o 5, ac y dylen nhw rewi pan fyddwch chi'n cyrraedd 1.
7. Ar ôl i'r hawl gael ei dyfalu, symudwch ymlaen i'r grŵp nesa nes bod yr holl grwpiau wedi cymryd rhan.

# Gweithgaredd Pump
# Camu Mlaen

Maint y grŵp: grŵp sy'n cynnwys 10 o leiaf.

Amser angenrheidiol: 30 munud

*Mae'r gweithgaredd yma'n ffordd weledol o archwilio pam fod gan blant a phobl ifanc hawliau ac ystyried faint o bŵer sydd gan rai oedolion dros fywydau pobl ifanc.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Cardiau Cymeriadau a Gosodiadau (mae'r rhain yn Adnodd 3).
- Digon o le i bawb sy'n cymryd rhan gamu ar draws y stafell. Os does dim digon o le, gofynnwch i bawb sy'n cymryd rhan sefyll ar ddechrau'r gweithgaredd ac 'Aros ar eu Traed os...'

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Gofynnwch i bawb sy'n cymryd rhan ddewis carden cymeriad ac edrych arno fe, ond heb ei rannu â gweddill y grŵp. Esboniwch fod rhaid iddyn nhw, yn y gêm yma, esgus mai nhw yw'r cymeriad ar y cerdyn a meddwl am y cymeriad yna mewn ffordd sy'n stereoteip.

2. Gofynnwch i bawb sy'n cymryd rhan sefyll mewn llinell un ochr i'r neuadd (bydd angen digon o le i bawb fedru cymryd camau ymlaen).

3. Esboniwch wrth y bobl ifanc: "Rydw i'n mynd i ddarllen nifer o gwestiynau, os byddai eich cymeriad chi yn ateb 'ie' i'r cwestiwn, cymerwch un cam ymlaen. Os yw'n rhywbeth mae eich cymeriad chi yn methu gwneud, rhaid i chi aros ble rydych chi."

4. Darllenwch y gosodiadau'n uchel, bydd rhai o'r cymeriadau'n symud bron bob tro, ac yn cyrraedd ochr arall y stafell, tra bydd eraill braidd byth yn symud.

5. Ar ôl darllen yr holl osodiadau, sefwch yng nghanol y stafell, a gofyn i bawb droi lle maen nhw'n sefyll i'ch wynebu chi, cyn gofyn i bob person ifanc (gan ddechrau gyda phwy bynnag symudodd bellaf) ddarllen eu cerdyn cymeriad.

6. Hwyluswch drafodaeth gyda'r grŵp am lefelau pŵer y gwahanol gymeriadau a sut mae hynny'n effeithio ar eu gallu i sicrhau eu hawliau.

Dyma rai cwestiynau posib i ddechrau trafodaeth:

- Pwy gafodd eu gadael ar ôl?
- Pam cawson nhw eu gadael ar ôl?
- Pam roedd y bwlch rhwng y rhai yn y blaen a'r rhai gafodd eu gadael ar ôl mor fawr?
- Oedd yna unrhyw wahaniaeth ar sail oed a rhywedd?
- Sut deimlad oedd cael eich gadael ar ôl neu symud ymlaen?
- Pa oedolion yn eich bywyd sy'n eich cefnogi i dderbyn eich hawliau?
  e.e. gwaith Sally Holland yw sefyll i fyny dros eich hawliau.

# Gweithgaredd Chwech
# Pictionary Hawliau

Maint y grŵp: Y grŵp cyfan

Amser angenrheidiol: 30 munud

*Mae'r gêm yma'n ddewis da yn lle fframiau rhewi hawliau os dyw eich grŵp ddim yn hoffi actio. Gallwch chi ei chwarae ar ddechrau sesiwn i dorri'r iâ neu ar y diwedd i grynhoi beth sydd wedi cael ei ddysgu.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Cardiau symbolau.
- Bwrdd gwyn / fflipsiart.
- Pin ysgrifennu addas.

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Gofynnwch i wirfoddolwr ddechrau'r gêm (os does neb eisiau gwirfoddoli, gallech chi ddechrau'r gêm eich hunan).
2. Dewiswch gerdyn o'r pecyn symbolau a'i roi i'r person cyntaf sy'n cymryd rhan. Gofynnwch i'r person yna dynnu llun o'r hawl er mwyn i'w cyfoedion ddyfalu pa hawl yw hi.
3. Bydd y person cyntaf sy'n dyfalu'r hawl yn mynd nesa / yn enwebu rhywun.

# Dewis Arall
# Pictionary Grŵp

*Mae'r gêm yma'n debyg iawn i Pictionary clasurol, ond yn cael ei chwarae mewn grwpiau.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Cerdyn symbolau.
- Digon o bapur ar gyfer pob bwrdd.
- Digon o binnau ysgrifennu ar gyfer pob bwrdd.

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Rhannwch y grŵp yn dimau o ryw 4-6.
2. Dewiswch 5 neu 10 o hawliau o'r pecyn symbolau ymlaen llaw (yn ôl faint o amser sydd gennych chi).
3. Gofynnwch i bob tîm eistedd o amgylch darn o bapur ar gyfer eu grŵp nhw — rhowch eich hunan y pen arall i'r stafell.
4. Esboniwch wrth y myfyrwyr mai cystadleuaeth yw hon. Rhaid i aelodau pob tîm adnabod yr hawliau sydd yn lluniau aelodau eraill y tîm. Y tîm cyntaf i adnabod yr holl hawliau yn y lluniau fydd yn ennill.
5. Gofynnwch i 1 aelod o bob tîm ddod atoch chi. Dangoswch y cerdyn cyntaf o'r pecyn symbolau yn gyfrinachol i'r plant yma.
6. Mae'r aelodau unigol yn dychwelyd at eu timau ac yn tynnu llun o'r hawl. Rhaid i aelodau eraill y tîm ddyfalu beth sydd yn eu llun. Ar ôl adnabod yr hawl, bydd aelod arall o'r tîm yn dod atoch chi i gael yr hawl nesa.

7. Bydd y gweithgaredd yn dod i ben pan fydd un o’r timau wedi adnabod pob un o’r hawliau.

# Gweithgaredd Saith
# Hawliau Pedair Cornel

Maint y grŵp: Y grŵp cyfan

Amser angenrheidiol: 10 munud

*Y ffordd orau o chwarae'r gêm yma yw mewn stafell fawr gyda grŵp mawr, ac mae'n arbennig o addas ar gyfer plant ifancach.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Pedwar cerdyn mawr gyda llun/geiriau yn disgrifio hawliau gwahanol arnyn nhw.
- Pedair ardal glir mewn stafell (yn ddelfrydol corneli).

**Sut mae gwneud hyn:**

- Dangoswch bedair cornel y stafell i'r grŵp a dweud wrthyn nhw pa hawl sydd ym mhob cornel.
- Esboniwch eich bod chi'n mynd i gau eich llygaid a bod rhaid i bawb ohonyn nhw ddewis hawl i sefyll dani.
- Dywedwch wrth y grŵp y byddwch chi'n gweiddi un hawl yn uchel. Bydd pawb sy'n sefyll dan yr hawl yna allan, ac yn dod i ymuno â chi yng nghanol y stafell.
- Daliwch ati i chwarae nes bod dim ond un chwaraewr ar ôl, wedyn nhw fydd arweinydd nesa'r gweithgaredd.

# Gweithgaredd Wyth
# Hawliau yn eich cymuned

Maint y grŵp: Grwpiau bach

Amser angenrheidiol: 30 munud (gyda'r posibilrwydd o ddilyn ymlaen o'r gweithgaredd trwy edrych ar broblemau/pynciau unigol)

*Mae'r gweithgaredd yma'n ffordd ddifyr i'r rhai sy'n cymryd rhan feddwl am eu cymuned a'r hawliau sydd ganddyn nhw yn eu cymuned. Bydd y cyfranogwyr yn defnyddio papur a phinnau ysgrifennu, ac yn gweithio fel grŵp i greu map mawr o'u cymuned leol, gan gymryd amser i archwilio sut mae'r gymuned yn cefnogi eu hawliau.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Papur mawr (rholiau papur yn ddelfrydol)
- Tâp Gludiog
- Pinnau a Phensiliau
- Posteri Hawliau
- Nodiadau 'Post-it' (neu gallech chi ddefnyddio darnau papur a thâp gludiog)

**Sut mae gwneud hyn:**

1. Mae pob grŵp yn cael darn mawr o bapur er mwyn iddyn nhw fedru tynnu llun o'u cymuned/grŵp lleol, gyda'u man cyfarfod yn y canol. Dylech chi ganiatáu 15 munud ar gyfer y rhan yma o'r gweithgaredd, ac annog y bobl ifanc i fod yn greadigol wrth greu eu mapiau. Gallen nhw ddefnyddio symbolau neu ddeunyddiau celf eraill.

2. Gofynnwch i bob grŵp ddefnyddio nodiadau 'post-it' a thynnu sylw at fannau sydd o ddiddordeb iddyn nhw nad yw oedolion o reidrwydd yn gwybod amdanyn nhw (e.e. rydyn ni'n chwarae yn y coed fan hyn/rydyn ni'n treulio amser fan hyn).

3. Mae rhan olaf y dasg yn cysylltu rhannau o'r gymuned â'u hawliau. Os awgrymwch chi gychwyn yn y man cyfarfod gydag Erthygl 12 (yr hawl i gael eu clywed) ac Erthygl 15 (yr hawl i gwrdd â ffrindiau ac ymuno â grwpiau) bydd yn rhoi syniad da i'r cyfranogwyr am sut mae cysylltu mannau eraill yn eu hardal â hawliau.

**Enghreifftiau eraill:**

Lleoliad addysg — Erthygl 28

Lle chwarae/maes chwaraeon/grŵp theatr — Erthygl 31

Adeilad crefyddol — Erthygl 14

Meddygon — Erthygl 24

Ysgol Gymraeg — Erthygl 30

Gorsaf Heddlu — Erthygl 19 ac Erthygl 37

**Peidiwch ag anghofio defnyddio'r Awgrymiadau Gwych!**

# Gweithgaredd Naw
# Hawliau ar eich Stryd chi

Maint y Grŵp: Timau o ryw 5/6

Amser angenrheidiol: 20 munud

*Mae'r gêm yma'n nodi hawliau/achosion o dorri hawliau yn y gymuned.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Posteri 'Right up your street' (ar gael am ddim oddi wrth Amnesty International).
- Nodiadau 'Post-it'.
- Pinnau/pensiliau.

**Sut mae gwneud hyn:**

- Os oes gennych chi grŵp mawr, rhannwch e'n grwpiau o ryw 5-6 — rhowch boster, 'post-its' a phinnau neu bensiliau i bob grŵp.
- Gofynnwch i bob grŵp geisio nodi pa hawliau sy'n cael eu cynrychioli neu eu torri ar y poster — gofynnwch iddyn nhw roi nodiadau 'post-it' ar y pethau maen nhw'n eu ffeindio.
- Ar ôl gorffen, gofynnwch i bawb rannu beth ffeindion nhw ar y poster — falle gallech chi drafod pa rai o'r rhain sy'n amlwg yn eich cymuned?

# Gweithgaredd Deg
# Snaptifyddion

Maint y Grŵp: Timau o ryw 5/6

Amser angenrheidiol: 20 munud.

*Mae'r gêm yma'n cynnwys paru actifyddion ifanc â'r gwaith wnaethon nhw a'r hawl roedden nhw'n brwydro drosti.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Copïau wedi'u printio o'r disgrifiadau, enwau a hawliau meant yn amddiffyn sydd actifyddion sydd ar gael yn Adnodd 4.

**Sut mae gwneud hyn:**

- Os oes gennych chi grŵp mawr, rhannwch e'n grwpiau llai o 5-6.
- Dosbarthwch becyn o'r enwau, y disgrifiadau a'r hawliau i bob grŵp.
- Gofynnwch i'r grwpiau baru'r actifydd â'r disgrifiad a'r hawl maen nhw'n ei diogelu.

# Gweithgaredd Un deg un
# Beth Ddaeth Gynta

Maint y Grŵp: Timau o ryw 5/6

Amser Angenrheidiol: 20 munud

*Gweithgaredd syml yn gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan ddyfalu beth ddaeth gyntaf mewn hanes.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Y cyflwyniad PowerPoint beth ddaeth gynta sydd ar gael yma.

**Sut mae gwneud hyn:**

- Chwaraewch y cyflwyniad a gofyn i'r cyfranogwyr ddyfalu p'un ddaeth gyntaf.

# Gweithgaredd Un deg dau
# Kahoot Hawliau

Maint y Grŵp: Timau bach

Amser angenrheidiol: 20 munud

*Gêm gwis ryngweithiol yw hon i gyflwyno hawliau plant a'r Comisiynydd i'r cyfranogwyr.*

**Bydd arnoch chi angen:**

- Tabled neu ffôn ar gyfer pob grŵp.
- Cwis Kahoot. Ar gael yma. (Darganfyddwch yr adnodd yma ar-lein i clicio ar y ddolen).
- Sgrîn ryngweithiol y gall pawb ei gweld.
- Cysylltiad Di-Wi (Wi-Fi).

**Sut mae gwneud hyn:**

- Gosodwch y Kahoot yn barod ar y sgrîn ryngweithiol.
- Rhannwch y plant yn grwpiau a gofalu bod pawb yn gallu cyrraedd ffôn/tabled.
- Gofynnwch iddyn nhw chwilio am Kahoot ac yna nodi'r côd a roddwyd ar y gêm Kahoot.

Dilynwch y cyfarwyddiadau ar-lein i chwarae'r gêm.

# ADNODDAU

## Adnodd 1
## Mesur Effaith — Offer Gwerthuso Llysgenhadon Cymunedol

Fel rhan o'r adnodd hwn rydyn ni wedi darparu'r offeryn canlynol i'ch helpu i fesur a chofnodi effaith y gwaith rydych chi neu'r Llysgenhadon Cymunedol yn ei wneud.

1. Gwerthusiad Gweithwyr — mae hyn yn cynnwys crynodeb o ymatebion y bobl ifanc. Gofynnwn i chi ddychwelyd y ffurflen orffenedig hon at kath.okane@childcomwales.org.uk neu beca.jones@childcomwales.org.uk ar ôl i chi gyflwyno rhai neu'r cyfan o'r gweithgareddau/cynlluniau sesiwn. Bydd hynny'n ein galluogi i fonitro effaith ein gwaith a gwella adnoddau'r dyfodol.
2. Adfyfyrio gan y Bobl Ifanc ymlaen llaw a wedyn — lluniwyd yr offeryn yma i'w ddefnyddio ar ddechrau'r sesiwn ac eto ar y diwedd. Mae wedi'i lunio i alluogi gweithwyr neu Lysgenhadon Cymunedol sy'n cynnal gweithgareddau cyfoedion i olrhain effaith cyflwyno'r sesiynau hyn.
3. Does dim rhaid i chi rannu deunydd Adfyfyrio ymlaen llaw a wedyn y bobl ifanc gyda ni, ond bydden ni'n falch iawn petaech chi'n cofnodi ymatebion y gwerthusiad gweithwyr isod, ac yn rhannu hynny gyda ni trwy eich cyswllt yn CPC.

## Gwerthusiad Gweithwyr

1. Pa grŵp fu'n cymryd rhan yn y gweithgareddau? E.e. sgowtiaid o Geredigion

2. Faint o bobl ifanc fu'n cymryd rhan?

3. Disgrifiwch sut cyflwynoch chi'r gweithgareddau, os gwelwch yn dda (gweithiwr neu Lysgennad Cymunedol). Efallai byddwch chi am gynnwys pa weithgareddau gyflwynoch chi a sut gwnaethoch chi addasu'r adnodd.

4. Beth roddodd fwyaf o syndod i chi wrth i'r sesiynau gael eu cyflwyno?

5. Pa weithgaredd gafodd yr effaith fwyaf a pham?

6. I ba raddau mae'r adnodd wedi eich helpu i ddeall rôl a gwaith Llysgennad Cymunedol?

7. Beth fydd canlyniad pwysicaf yr adnodd yma i bobl ifanc, yn eich barn chi?

8. Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am gryfderau a gwendidau'r adnodd?

9. Adiwch gyfanswm sgoriau'r unigolion yn eich ymarfer Adfyfyrio Ymlaen Llaw a Wedyn i Bobl Ifanc i ganfod sgôr eich grŵp cyn ac ar ôl y gweithgareddau/sesiynau. Cofiwch eu cynnwys isod:

SGÔR Y GRŴP ar ddechrau'r gwersi/sesiynau: .........

SGÔR Y GRŴP ar ddiwedd y gwersi/sesiynau ...........

# Adfyfyrio Ymlaen Llaw a Wedyn gan y Bobl Ifanc

Mae'r offeryn yma'n gyfle i'r bobl ifanc fyfyrio ar eu dealltwriaeth o CCUHP a rôl Comisiynydd Plant Cymru.

## Cyn y sesiynau

Rhowch fatiau IE/NA/FALLE ar y llawr. Darllenwch y gosodiadau hyn ar ddechrau'r sesiwn a chofnodwch nifer y bobl ifanc oed sy'n sefyll ar y matiau unigol isod.

| | IE | FALLE | NA |
|---|---|---|---|
| Rwy'n deall beth yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) | | | |
| Rwy wedi clywed am Gomisiynydd Plant Cymru | | | |
| Rwy'n gwybod beth yw gwaith y Comisiynydd Plant | | | |
| Rwy'n deall rôl Llysgenhadon Cymunedol | | | |

## Ar ôl y sesiynau

Rhowch y matiau IE/NA/FALLE yn ôl ar y llawr. Darllenwch y gosodiadau hyn ar ddechrau'r sesiwn a chofnodi niferoedd y bobl ifanc sy'n sefyll ar y matiau unigol isod.

| | IE | FALLE | NA |
|---|---|---|---|
| Rwy'n deall beth yw Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) | | | |
| Rwy wedi clywed am Gomisiynydd Plant Cymru | | | |
| Rwy'n gwybod beth yw gwaith y Comisiynydd Plant | | | |
| Rwy'n deall rôl Llysgenhadon Cymunedol | | | |

# Adnodd 2
# Gwybodaeth am Gomisiynydd Plant Cymru

Sally Holland yw Comisiynydd Plant Cymru. Ei gwaith hi yw bod yn bencampwr annibynnol i bob plentyn a pherson ifanc yng Nghymru. Rhan arall o'i gwaith yw sicrhau bod holl blant Cymru yn derbyn eu hawliau a hefyd yn dysgu am eu hawliau.

Ond beth yw hawliau? Wel, hawliau yw'r holl bethau mae pawb yn y byd yn cytuno bod eu hangen nhw ar bob plentyn i dyfu i fyny er mwyn bod yn iach, yn hapus ac yn ddiogel. Mae hynny'n golygu bod gennych chi hawliau i fynd i'r ysgol, i weld meddyg os byddwch chi'n dost, i gael eich cadw'n ddiogel, i gael gwrandawiad a llawer o bethau eraill.

Mae Sally a'r tîm yn gweithio'n galed i wrando ar blant o bob rhan o Gymru ac o bob oed, er mwyn cael gwybod beth sy'n bwysig i chi, a gweithio'n galed i wneud rhywbeth am y pethau rydych chi wedi dweud. Maen nhw'n gweithio'n galed i ddylanwadu ar eraill a chodi llais dros blant a gyda nhw ym mhob math o fannau, p'yn a yw hynny gyda'r llywodraeth, gyda'ch cyngor lleol, neu ar y cyfryngau, er enghraifft ar y newyddion.

Mae Sally hefyd yn gweithio'n galed i wirio bod yr holl gyfreithiau a rheolau a phethau sy'n cael eu darparu i blant yn gweithio'n dda i blant. Os dyw hynny ddim yn digwydd, mae hi'n ceisio newid pethau.

Mae gan Sally hefyd wasanaeth llinell gymorth y gall plant a phobl ifanc unigol sy'n cael trafferth sicrhau eu hawliau ei ffonio i gael help. Os hoffech chi wybod mwy am waith Sally a'r tîm i helpu plant yng Nghymru i sicrhau eu hawliau a gwybod am eu hawliau, edrychwch ar y dudalen ar y we, os gwelwch yn dda.

# Adnodd 3
# Cardiau cymeriadau a Chwestiynau ar gyfer

# Camu Mlaen

Printiwch y cardiau cymeriadau a'u torri allan cyn y gweithgaredd.

## Cymeriadau — Plant a Phobl Ifanc

| | | |
|---|---|---|
| BACHGEN SYDD AR GYNGOR YR YSGOL<br><br>**15 OED** | MERCH SYDD Â PHRYDER EITHAFOL<br><br>**12 OED** | PLENTYN SYDD AG ALERGEDDAU DIFRIFOL<br><br>**7 OED** |
| GOFALWR IFANC<br><br>**10 OED** | PERSON IFANC A GAFODD EI RYDDHAU O GANOLFAN DDIOGEL I BOBL IFANC YN DDIWEDDAR<br><br>**18 OED** | MAM SENGL SYDD Â MERCH DWY OED<br><br>**17 OED** |
| DYN IFANC O'R GYMUNED SIPSIWN A THEITHWYR<br><br>**15 OED** | FFOADUR SYDD Â SAESNEG CYFYNGEDIG<br><br>**11 OED** | PERSON IFANC DIGARTREF SY'N BYW AR Y STRYD<br><br>**16 OED** |
| PLENTYN BYDDAR<br><br>**3 OED** | MERCH SY'N FWSLIM<br><br>**14 OED** | BACHGEN SY'N DEFNYDDIO CADAIR OLWYN<br><br>**15 OED** |
| PLENTYN SY'N DERBYN GOFAL MEWN GOFAL MAETH<br><br>**8 OED** | BABAN<br><br>**18 MIS** | PLENTYN SY'N EITHRIADOL O SWIL<br><br>**5 OED** |

| | | |
|---|---|---|
| PLENTYN AG ANABLEDDAU DYSGU<br>**12 OED** | PLENTYN MEWN CARTREF PLANT<br>**9 OED** | PERSON IFANC TRAWSRYWIOL<br>**17 OED** |

## Cymeriadau - Oedolion

| | | |
|---|---|---|
| BENYW FUSNES LWYDDIANNUS<br>**35 OED** | PENNAETH YSGOL<br>**55 OED** | YMWELYDD IECHYD<br>**45 OED** |
| MYFYRIWR GWAITH CYMDEITHASOL<br>**24 OED** | COMISIYNYDD<br>PLANT<br>CYMRU | BARNWR GWRYW<br>**63 OED** |
| AELOD O'R HEDDLU<br>**33 OED** | CYNORTHWY-YDD ADDYSGU<br>**28 OED** | GWEITHIWR IEUENCTID<br>**35 OED** |

| | | |
|---|---|---|
| AELOD CYNULLIAD<br><br>**58 OED** | ATHRO<br><br>**37 OED** | CYNGHORYDD LLEOL<br><br>**45 OED** |
| CYFREITHIWR<br><br>**33 OED** | TADCU/MAMGU SY'N FEDDYG TEULU WEDI YMDDEOL<br><br>**72 OED** | |

## Cwestiynau

1. Allwch chi ddewis beth rydych chi'n gwisgo?
2. Allwch chi ddewis beth rydych chi'n bwyta?
3. Allwch chi ymarfer eich crefydd yn agored?
4. Ydych chi'n meddwl bydd cael swydd yn hawdd i chi?
5. Allwch chi weld a siarad â'ch teulu pan fyddwch chi eisiau?
6. Allwch chi ddewis ble byddech chi'n hoffi byw?
7. Ydych chi'n gwybod sut i gael help cyfreithiol os ewch chi i drwbwl?
8. Allwch chi gwrdd â'ch ffrindiau pan fyddwch chi eisiau?
9. Ydy pobl yn ymgynghori â chi am faterion sy'n effeithio ar eich bywyd?
10. Wnaethoch chi fynd i'r brifysgol, neu ydych chi'n debygol o fynd yno?
11. Ydy pobl yn gallu deall eich meddyliau a'ch teimladau'n hawdd?
12. Allwch chi gwyno'n hawdd am wasanaethau rydych chi'n eu derbyn?
13. Ydy'r cyfryngau yn eich cyflwyno chi mewn golau ffafriol?
14. Allwch chi gael mynediad i'ch hawliau?
15. Allwch chi yrru car?
16. Allwch chi rentu fflat neu brynu tŷ?
17. Allwch chi bleidleisio?
18. Allwch chi sefyll fel ymgeisydd mewn etholiad i'r Senedd/i'r cyngor/i'r Cynulliad?

# Adnodd 4
# Snaptifyddion

Ar y tudalennau nesaf cewch ddisgrifiadau a ffotograffau o actifyddion, y gallwch chi eu printio a'u torri allan i chwarae Snaptifyddion.

Yn 2008, cymerodd y Taliban reolaeth ar ei phentref a dweud bod merched yn methu mynd i'r ysgol bellach. Roedd hi'n anghytuno â hynny, a bu'n codi llais yn gyhoeddus ar ran merched a'u hawl i ddysgu. Ym mis Hydref 2012, cafodd ei saethu yn ei phen gan ddyn mewn mwgwd pan oedd hi ar fws. Daeth i ysbyty yn Birmingham i wella a symudodd i'r Deyrnas Unedig. Mae hi'n dal yn actifydd dros ferched, yn sicrhau eu bod yn cael mynediad i addysg ar draws y byd.

**Enw**: Malala Yousafzai
**Oed**: 11 yn dod yn actifydd

**Erthygl 28**: Mae gen i hawl i gael addysg.

Yn ddiweddar daeth yn llysgennad i UNICEF a nawr mae hi'n defnyddio'i henwogrwydd i helpu i gynyddu ymwybyddiaeth o hawliau plant. Mae hi'n canolbwyntio ar hybu addysg, mannau diogel i chwarae a dysgu, ac effaith negyddol trais, bwlio a thlodi.

**Enw**: Millie Bobby Brown
**Oed**: 14 yn dod yn actifydd

**Erthygl 12**: Mae gen i hawl i gael gwrandawiad a chael fy nghymryd o ddifri.

Ar ôl saethu torfol yn eu hysgol uwchradd yn Florida, penderfynodd y grŵp sefydlu mudiad a fyddai'n galw am reoli perchnogaeth gynnau yn dynnach yn yr Unol Daleithiau. Trefnodd y grŵp brotestiadau a sesiynau cerdded allan, ac ym mis Tachwedd 2018, enillon nhw'r Wobr Heddwch Ryngwladol i Blant.

**Enw**: March for our Lives
**Oed**: 15-18 yn dod yn actifyddion

**Erthygl 36**: Mae gen i hawl i gael fy nghadw'n ddiogel rhag pethau allai niweidio fy natblygiad.

Yn 4 oed cafodd ei werthu gan ei deulu i weithio oriau hir mewn ffatri garpedi. Yn 10 oed dihangodd, cafodd ei ddal, ac yna dihangodd eto am byth. Aeth ymlaen i helpu dros 3,000 o blant o Bacistan oedd yn gaethweision i ddianc a chafodd gydnabyddiaeth ryngwladol am ei ymdrechion.

**Enw**: Iqbal Masih
**Oed**: 10 yn dod yn actifydd

**Erthygl 35**: Ddylwn i ddim cael fy nghipio, fy ngwerthu, na'm masnachu.

| |
|---|
| Ym mis Medi 2016, sefydlodd gyfrif Twitter, a chafodd help gan ei mam i anfon fideos a negeseuon trydar yn beirniadu defnydd llywodraeth Syria o arfau yn ystod y rhyfel. |
| **Enw**: Bana al-Abed<br>**Oed**: 6 yn dod yn actifydd |
| **Erthygl 38**: Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i amddiffyn a gofalu am blant sy'n dioddef effaith rhyfel. |

| |
|---|
| Yn 2015, rhedodd i ganol gorymdaith y Pab Francis i drosglwyddo neges. Rhoddodd lythyr i'r Pab am y trefniadau i ddiwygio mewnfudo oherwydd ei bod hi'n ofni y byddai ei rhieni — mewnfudwyr answyddogol o Mecsico — yn cael eu hanfon allan o'r wlad. Mewn cyfweliad dywedodd, 'Rwy'n credu bod gen i hawl i fyw gyda'm rhieni. Mae gen i hawl i fod yn hapus.' |
| **Enw**: Sophie Cruz<br>**Oed**: 5 yn dod yn actifydd |
| **Erthygl 9**: Mae gen i hawl i fyw gyda'm rhieni oni bai bod hynny'n ddrwg i fi. |